**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023 trwy Zoom**

**PRESENNOL**

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Y Cynghorydd Brynmor Hughes
Y Cynghorydd Gwynfor Owen
Y Cynghorydd Bryan Apsley
Dafydd Edwards, Trysorydd
Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod a'r Swyddog Monitro

Cynrychiolwyr y Gweithwyr:
Stuart Millington, Cymdeithas Arweinwyr Tân
Stuart Stanley, Undeb y Brigadau Tân
Matt Ryan, Undeb y Brigadau Tân
Paul Kay, Cymdeithas Swyddogion Tân

Ymgynghorwyr
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Beccy Marfleet, Swyddog Pensiynau
Martin Morgan, Cronfa Bensiwn Dyfed

Cofnodydd
Lisa Allington, Cynorthwyydd Gweithredol

## 1 YMDDIHEURIADAU

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

3.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2023 fel cofnod gwir a chywir.

## 4 CYFRIF CRONFA BENSIWN

4.1 Rhoddodd PSTC MacArthur ddiweddariad llafar ar brisiad Adran Actiwari’r Llywodraeth (GAD).

4.2 Nodwyd bod prisiad GAD bellach ar fin digwydd a'i fod yn dra disgwyliedig y byddai cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr o ganlyniad.

**5 ADRODDIAD DIWEDDARU – AELODAETH Y CYNLLUN**

5.1 Cyflwynodd Beccy Marfleet Adroddiad Diweddaru Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a oedd yn anelu at roi diweddariad i'r Bwrdd Pensiwn Lleol ar faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

5.2 Nodwyd bod cynnydd sylweddol wedi bod yn llwyth gwaith y Swyddog Pensiynau mewn perthynas â deddfwriaeth rhwymedi ac y byddai hyn yn cynyddu fwyfwy dros y 18 i 24 mis nesaf oherwydd rhwymedïau McCloud ac O'Brien.

5.3 Amlygwyd bod un unigolyn ar hyn o bryd nad oedd yn talu cyfraniadau i gynllun pensiwn a mynegwyd peth pryder y gallai hyn gael ei briodoli i faterion costau byw. Cadarnhaodd PSTC MacArthur fod llawer iawn o waith yn cael ei wneud i hyrwyddo cynlluniau pensiwn ond yn anffodus, nid oedd unrhyw gamau pellach y gellid eu cymryd er mwyn helpu pobl yn ariannol gan nad oedd Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnig cyfraniad rhannol, yn wahanol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

5.4 **PENDERFYNWYD:**
**i) nodi cynnwys yr adroddiad.**

**6 ADRODDIAD DIWEDDARU – GWEINYDDWR**

6.1 Cyflwynodd Martin Morgan adroddiad gweinyddu pensiynau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) – Hydref 2023. Roedd yn anelu at roi diweddariad ar gynnydd nifer o brosiectau oedd yn cael eu cynnal ar yr un pryd, ynghyd â darparu gwybodaeth am faterion perthnasol wrth weinyddu buddion y cynllun.

6.2 Cadarnhawyd bod hyrwyddo porth Fy Mhensiwn Ar-lein yn parhau.

6.3 Gwnaed sylw bod yr ystadegau ar dudalen gyntaf yr adroddiad hwn yn wirioneddol graff ac y byddai angen dull cyfunol o hyrwyddo Fy Mhensiwn Ar-lein.

6.4 Nododd un Aelod y byddai canran fach o bobl o hyd na fyddai eisiau cyfathrebu ar-lein ac yn gyfreithiol, byddai angen inni ystyried eu hanghenion. Cadarnhawyd y byddai copïau papur o'r holl ohebiaeth yn dal i gael eu hanfon at y rhai nad oeddent wedi cofrestru gyda Fy Mhensiwn Ar-lein.

6.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) sicrhau bod cynrychiolwyr cyflogeion yn annog eu haelodau i gofrestru gyda Fy Mhensiwn Ar-lein cyn y dyddiad cau ar gyfer dangosfwrdd pensiynau Ebrill 2024.**

## 7 DIWEDDARIAD CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – GWAHANIAETHU AR SAIL OEDRAN A DIFFODWYR TÂN RHAN AMSER

7.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur ddau adroddiad, a oedd â'r nod o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y trefniadau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oed yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru, ac ar y diwygiadau arfaethedig i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru i ehangu mynediad i ddiffoddwyr tân rhan amser cymwys (ar-alwad) gyda gwasanaeth cyn 2000.

7.2 Mynegwyd pryder ynghylch y llwyth gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â'r ddau ddyfarniad hyn, a'r gofyniad i gwblhau'r ddau o fewn cyfnod o 18 mis, er y nodwyd bod y dyddiad cau ar gyfer diffoddwyr tân rhan amser yn rhedeg dri mis y tu ôl i'r dyddiad cau ar gyfer gwahaniaethu ar sail oedran.

7.3 Gofynnwyd sut roedd y cyfathrebu gydag aelodau pensiwn yn cael ei gynnal ac a ellid defnyddio hyn fel cyfle i hyrwyddo porth Fy Mhensiwn Ar-lein.

7.4 Cafwyd cadarnhad unwaith y byddai unigolyn wedi'i nodi'n gymwys drwy'r ymarferion dewis cyntaf ac ail ddewis, y byddent yn cael eu hannog i roi cyfeiriad e-bost a rhif ffôn i'r Gwasanaeth er mwyn galluogi cyfathrebu mwy effeithiol.

7.5 Gofynnwyd a fyddai'r rhwymedïau yn straen ychwanegol ar y gyllideb. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod gallu'r Gwasanaeth i ymdopi â'r llwyth gwaith cynyddol dan sylw yn parhau i fod yn risg sylweddol i'r Gwasanaeth. Teimlwyd felly y byddai angen adnoddau ychwanegol er mwyn prosesu'r rhwymedïau o fewn y terfynau amser penodedig, a byddai hyn yn cael ei godi drwy Weithgor Craffu Cyllideb yr Aelodau a'r Pwyllgor Archwilio.

7.6 Roedd cydweithrediad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru hefyd yn cael ei archwilio lle byddai un arweinydd technegol yn cael ei sicrhau i weithio ar draws y ddau wasanaeth ac a fyddai'n helpu i leddfu'r llwyth gwaith.

7.7 **PENDERFYNWYD:**

- **i) nodi'r gofynion deddfwriaethol a'r amserlenni a sefydlwyd gan y rheoliadau rhwymedi oedran;**
- **ii) nodi'r gwaith a wnaed i weithredu'r rheoliadau.**
- **iii) nodi cefndir y mater cyfreithiol mewn perthynas â diffoddwyr tân rhan amser; a**
- **iv) nodi'r cynigion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion cyfreithiol sy'n codi.**

## 8 Y GOFRESTR RISG

8.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur adroddiad y Gofrestr Risg, a oedd yn rhoi diweddariad i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol ar y trefniadau rheoli risg.

8.2 Nodwyd bod y Gofrestr Risg yn cynnwys tri maes, a bod maes gwahanol yn cael ei gwmpasu ym mhob cyfarfod Bwrdd Pensiwn Lleol. Y risg oedd yn cael ei chwmpasu yn y cyfarfod hwn oedd Cydymffurfiaeth Rheoleiddio.

8.3 **PENDERFYNWYD:**

- **i) ystyried a chymeradwyo'r asesiad o'r risgiau cyllid sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân.**

## 9 HYFFORDDIANT

9.1 Rhoddodd PSTC Helen MacArthur gyflwyniad hyfforddi ar Rwymedi Gwahaniaethu ar Sail Oed, a oedd yn cynnwys trosolwg o'r ddeddfwriaeth sylfaenol, y ddeddfwriaeth sy'n sefydlu cynlluniau, goblygiadau ymarferol y rhwymedi i'r Gwasanaeth a'r amserlenni y mae'n rhaid cadw atynt o ran cyflwyno'r rhwymedi.

9.2 Cydnabuwyd cymhlethdod a maint y gwaith a oedd yn gysylltiedig â'r rhwymedi hwn ac ar y pwynt hwn, diolchwyd i RM ac HM am eu holl waith caled hyd yma. Diolchwyd hefyd i gydweithwyr Undeb y Brigadau Tân am eu cefnogaeth wrth gyflwyno'r rhwymedi hwn.

9.3 Gofynnwyd beth fyddai'n digwydd pe na bai aelod yn cyrraedd oedran ymddeol, a chadarnhawyd y byddai buddiolwyr bob amser yn cael eu cymhwyso i ba bynnag gynllun a fyddai'n golygu y byddent fwyaf ar eu hennill.

## 10 BWRDD CYNGHORI CYMRU AR Y CYNLLUN

10.1 Rhoddodd PSTC MacArthur ddiweddariad llafar ar Fwrdd Cynghori Cymru ar y Cynllun.

10.2 Nodwyd y byddai cyfarfod nesaf y Bwrdd Cynghori ar y Cynllun yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf ac y byddai'n canolbwyntio ar brisiad GAD.

## 11 AELODAETH – AR LAFAR

11.1 Nodwyd bod angen cynyddu aelodaeth y gweithwyr a theimlwyd mai'r ffordd orau o wneud hyn oedd gofyn i aelodau staff fynegi diddordeb. Cytunwyd y byddai cynrychiolaeth bellach gan gydweithwyr rhan amser yn fuddiol o ystyried yr heriau cyfreithiol presennol sy'n ymwneud â chydweithwyr rhan amser.

11.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) anfon cyfathrebiad at yr holl staff i ofyn iddynt fynegi diddordeb mewn ymuno â'r Bwrdd Pensiwn Lleol.**

## 12 MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

12.1 Nododd yr aelodau fod y cynlluniau pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân wedi bod yn destun nifer o heriau cyfreithiol yn y blynyddoedd diwethaf. Er mwyn unioni'r diffygion a nodwyd gan y llysoedd, roedd Llywodraeth Cymru wedi gweithredu nifer o newidiadau i'r cynllun statudol, y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu rhoi ar waith yn awr o fewn amserlen fer. Roedd y newidiadau yn gymhleth ac yn gofyn am brosesu llawer iawn o fanylion o fewn amserlen gyfyngedig. Fel cyflogwr cyfrifol roedd yn ofynnol i'r Awdurdod sicrhau bod y newidiadau hyn yn gywir er budd ei weithwyr, ac mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol felly'n gofyn am adnoddau ychwanegol dros dro i sicrhau bod y newidiadau'n cael eu gwneud yn gywir ac ar amser.

12.2 Felly, cytunwyd y dylid gofyn i'r Awdurdod Tân ac Achub am y risg sy'n ymwneud ag anghenion capasiti, deall beth yw'r anghenion hynny a cheisio recriwtio i ddiwallu'r anghenion hynny.

12.3 Cytunwyd ymhellach y byddai goblygiadau prisiad GAD, a'r effaith bosibl ar y gyllideb, yn cael eu dwyn i sylw'r Awdurdod.

## 13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

13.1 Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 23 Ionawr, 2024 am 09:00 y bore.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:35